*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 12**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub** |
| Dyddiad | **19/03/18** |
| Swyddog Arweiniol | **Simon Smith, Prif Swyddog Tân** |
| Swyddog Cyswllt | **Julie Brown, Pennaeth Cyllid** |
| Pwnc | **Buddion Pensiwn Ychwanegol (BPY) Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Rhoi gwybod i'r Aelodau am y materion cyffredinol sy'n codi o ran sut i drin taliadau dyrchafiad dros dro o dan Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (FPS 1992).

2 Gofyn i'r Awdurdod Tân ac Achub benderfynu a ddylai taliadau dyrchafiad dros dro a wnaed i aelodau Cynllun FPS 1992 gael eu hystyried yn bensiynadwy a'u trin fel Buddion Pensiwn Ychwanegol ynteu eu categoreiddio fel taliadau amhensiynadwy.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

3 Rhaid i'r Awdurdod Tân ac Achub o dan Reoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân wneud penderfyniadau am faterion sy'n gysylltiedig â gweinyddu cynlluniau pensiwn y diffoddwyr tân. Rhaid i'r Awdurdod wneud penderfyniad ynglŷn â thrin taliadau dyrchafiad dros dro; yna bydd y penderfyniad yn cael ei ymgorffori yn y Polisi Disgresiwn a fydd yn cael ei adolygu ym mis Mehefin.

**ARGYMHELLION**

4 Gofynnir i'r Aelodau ystyried pob un o'r opsiynau a gyflwynir, a phenderfynu ar y dull mwyaf teg.

**CEFNDIR**

5 Bu ansicrwydd ers tro am gyflog pensiynadwy, ac roedd y rheoliadau yng nghynllun 1992 braidd yn aneglur. Felly, newidiwyd y ddeddfwriaeth yng Ngorffennaf 2013.

6 Cafodd Gorchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Diwygio) (Rhif 2) (Lloegr) 2013 (OS 1392) ei gyflwyno yng Ngorffennaf 2013. Roedd gorchymyn 2013 yn cyflwyno pwerau newydd i gyflogwyr wneud rhai lwfansau penodol, sy'n bodloni'r gofynion rhagnodedig, yn bensiynadwy o dan y trefniadau buddion pensiwn ychwanegol (BPY.

7 Dyma'r gofynion rhagnodedig -

(a) unrhyw lwfans neu atodiad i wobrwyo sgiliau ychwanegol a chyfrifoldebau sy'n cael eu defnyddio a'u cynnal y tu allan i ofynion dyletswyddau'r diffoddwr tân o dan y contract cyflogaeth ond sydd o fewn swyddogaethau ehangach y swydd;

(b) y swm sy'n cael ei dalu (os o gwbl) o ran datblygiad proffesiynol parhaus diffoddwr tân;

(c) y gwahaniaeth rhwng cyflog sylfaenol diffoddwyr tân yn ei swydd bob dydd ac unrhyw gyflog y maen nhw'n ei gael ar ddyrchafiad dros dro pryd mae angen iddynt gyflawni dyletswyddau swydd uwch;

(d) unrhyw daliad yn gysylltiedig â pherfformiad nad yw'n cael ei gyfuno yn y cyflog safonol.

8 Roedd y gorchymyn yn darparu amddiffyniad ar gyfer yr aelodau o gynllun 1992 a oedd yn cael lwfansau a thaliadau dros dro a oedd yn cael eu trin fel cyflog pensiynadwy o dan gynllun 1992 (sef yn cael eu talu fel ar 01/07/13) i barhau i gael eu trin fel cyflog pensiynadwy cyhyd â'u bod yn parhau i'w derbyn heb doriad yn y gwasanaeth.

9 Mae taliadau Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) wedi cael eu trin fel BPY ers Gorffennaf 2013.

**GWYBODAETH**

**Yr Arfer ar Hyn o Bryd**

10 Oherwydd bod cymhlethdodau'n gysylltiedig â dehongli'r ddeddfwriaeth o ran cydrannau cyflog pensiynadwy a'r achosion cyfreithiol sy'n ymdrin â'r mater ar hyn o bryd, ni chafodd disgresiwn gorchymyn 2013 ei fabwysiadu'n ffurfiol gan yr Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru. Fodd bynnag, byddai'n beth doeth erbyn hyn, yn dilyn yr achosion llys yn ddiweddar a'r atgyfeiriadau i'r Ombwdsmon Pensiynau, adolygu'r modd y mae dyrchafiad dros dro a lwfansau a thaliadau eraill yn cael eu trin.

11 Mae'r swyddogion wedi ystyried gwahanol opsiynau i fynd i'r afael â newidiadau 2013, gan roi sylw i gydymffurfiaeth gyfreithiol a'r angen i gael ffordd deg a chyfartal o ddelio ag aelodau Cynllun FPS 1992.

12 Ar ôl adolygu'r opsiynau, mae dau gynnig addas i'w hystyried. Yr opsiwn cyntaf yw trin dyrchafiad dros dro fel Budd Pensiwn Ychwanegol o ddyddiad yn y dyfodol; mae hyn yn cyd-fynd â'r camau y mae'r ATAau eraill yng Nghymru wedi'u cymryd. Yr opsiwn arall yw trin dyrchafiad dros dro yn amhensiynadwy o ddyddiad yn y dyfodol (Atodiad 1).

13 Ymgynghorir â'r cyrff cynrychioliadol priodol ynglŷn â'r dyddiad pryd i gymhwyso'r newidiadau.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Dim. |
| Cyllideb | Gallai'r penderfyniad effeithio ar amrywiadau actiwaraidd, ac yn eu tro gallai'r rheini naill ai leihau neu roi rhagor o faich gostau ar gyllideb flynyddol yr Awdurdod. |
| Cyfreithiol | Cydymffurfiaeth â Gorchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Diwygio) (Rhif 2) 2013. |
| Staffio | Effaith bosibl ar broses aelodau Cynllun FPS 1992 o wneud penderfyniadau ynglŷn ag ymddeol. Effaith bosibl ar dderbyn y dyrchafiadau dros dro a gynigir. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Dim goblygiadau o fewn yr adroddiad. |
| Risgiau | Peidio â chydymffurfio â'r ddeddfwriaeth. |

**ATODIAD 1**

## OPSIWN 1 – I'W WEITHREDU AR DDYDDIAD YN Y DYFODOL

| O BLAID | YN ERBYN |
|---|---|
| Yn cyd-fynd â'r ddeddfwriaeth o'r dyddiad gweithredu yn unig | Nid yw'n cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth o'r cyfnod 01/07/13 hyd at 31/03/18 |
| Dull cyson a theg o hyn ymlaen | Yn agored i her |
| Tebyg i gamau a gymerwyd gan yr ATAau eraill yng Nghymru (dyddiad gweithredu gwahanol) | Gallai atal aelodau'r cynllun pensiwn rhag derbyn dyrchafiad dros dro |
| Llai o faich gweinyddol | Effaith negyddol bosibl ar weithwyr sydd wedi cael dyrchafiad dros dro ers Gorffennaf 13 (wedi cronni BPY am y cyfnod) |
| Dim angen cynllun pensiwn ychwanegol ar gyfer y gweithiwr na'r cyflogwr. Symud symiau'r taliadau ychwanegol i'r cerbyd BPY. | |
| | |
| | |

## OPSIWN 2 – TRIN DYRCHAFIAD DROS DRO YN AMHENSIYNADWY O DDYDDIAD YN Y DYFODOL

| O BLAID | YN ERBYN |
|---|---|
| Yn cyd-fynd â'r ddeddfwriaeth o'r dyddiad gweithredu yn unig | Nid yw'n cydymffurfio â deddfwriaeth o'r cyfnod 01/07/13 hyd at 31/03/18 |
| Dull cyson a theg o'r dyddiad gweithredu – yn cyd-fynd â chynlluniau 2007 a 2015 | Yn agored i her |
| Tebyg i gamau a gymerwyd gan ATAau yn Lloegr (ac eithrio'r dyddiad gweithredu) | Nid yw'n gyson â'r dull a ddilynwyd gan ATAau yng Nghymru |
| Lleihau cymhlethdod | Gallai atal aelodau rhag derbyn dyrchafiad dros dro |
| | Gallai beidio â bod yn gyson â chamau a gymerir yn y dyfodol mewn cysylltiad ac achos Norman v Swydd Gaer |